Centre of expertise on child sexual abuse

Mae cymorth yn cyfrif ar gyfer rhieni

Trosolwg o'r gwasanaethau sy'n cefnogi rhieni a gofalwyr plant sy'n cael eu cam-drin yn rhywiol yng Nghymru a Lloegr

Crynodeb gweithredol

Milly Steele a Diana Parkinson

Chwefror 2026

Gair am yr awduron

Mae Diana Parkinson yn brif swyddog ymchwil a gwerthuso, ac mae Milly Steele yn swyddog ymchwil a gwerthuso, yn y Ganolfan arbenigedd ar gam-drin plant yn rhywiol.

Gair am y Ganolfan arbenigedd ar gam-drin plant yn rhywiol

Ein nod cyffredinol yw lleihau effaith cam-drin plant yn rhywiol drwy atal ac ymateb gwell, fel bod plant yn gallu byw'n rhydd o fygythiad a niwed cam-drin rhywiol.

Rydym yn dîm amlddisgyblaeth, wedi ein hariannu gan y Swyddfa Gartref a'n gweinyddu gan Barnardo's. Gweithiwn yn agos â phartneriaid allweddol o sefydliadau academaidd, awdurdodau lleol, iechyd, addysg, yr heddlu a'r sector gwirfoddol.

Y nodau y gweithiwn i'w cyrraedd yw:

- cynyddu'r flaenoriaeth a roddir i gam-drin plant yn rhywiol, drwy wella dealltwriaeth o'i raddfa a'i natur
- sicrhau bod mwy'n cael ei wneud i adnabod ac ymateb yn well i blant a phobl ifanc sydd wedi eu cam-drin yn rhywiol
- galluogi tarfu ac atal cam-drin plant yn rhywiol yn fwy effeithiol, drwy well dealltwriaeth o ymddygiad/parhad sy'n cam-drin yn rhywiol.

Rydym yn ceisio cyflwyno'r newidiadau hyn drwy:

- cynhyrchu a rhannu gwybodaeth am raddfa a natur cam-drin plant yn rhywiol, a'r ymateb iddo
- mynd i'r afael â bylchau mewn gwybodaeth drwy rannu ymchwil a thystiolaeth
- darparu hyfforddiant a chymorth i weithwyr proffesiynol ac ymchwilwyr sy'n gweithio yn y maes
- ymgysylltu â pholisi a dylanwadu arno.

Am fwy o wybodaeth am ein gwaith, ewch i'n gwefan yn **www.csacentre.org.uk**

Crynodeb gweithredol

Rhwng 2022 a 2024, cynhaliodd y Ganolfan Arbenigedd ar gam-drin plant yn rhywiol (Canolfan CPRh) ddwy astudiaeth ymchwil o bwys i ddeall maint a natur y gefnogaeth arbenigol sydd ar gael i bobl yr effeithir arnynt gan gam-drin plant yn rhywiol.

Er bod prif ganfyddiadau'r astudiaethau hyn wedi'u cyhoeddi mewn dau adroddiad ymchwil blaenorol gan y Ganolfan CSA (***Support Matters: The Landscape of Child Sexual Abuse Support Services in England and Wales*** a ***Support Matters 2025: Update on Child Sexual Abuse Support Services in England and Wales***), mae'r adroddiad newydd hwn yn canolbwyntio'n benodol ar yr hyn a ddatgelodd y ddwy astudiaeth am y gefnogaeth sydd ar gael i'r rhieni[1] nad ydynt yn cam-drin plant yr effeithir arnynt gan gam-drin rhywiol – a'r heriau sy'n wynebu'r gwasanaethau sy'n darparu'r gefnogaeth honno.

Mae derbyn cefnogaeth gan eu rhieni nad ydynt yn cam-drin yn gysylltiedig â'r broses o wella yn y tymor hir i blant ar ôl cam-drin rhywiol, felly mae helpu rhieni i ddarparu'r gefnogaeth honno'n bwysig. Fodd bynnag, dylid cydnabod rhieni a gofalwyr nad ydynt yn cam-drin hefyd fel dioddefwyr y gamdriniaeth yn eu hawl eu hunain, gan eu bod hefyd yn profi trawma sylweddol. Felly, mae'n bwysig ein bod yn deall lefel a natur y gefnogaeth sydd ar gael i rieni nad ydynt yn cam-drin, a sut y gellir cynnal y gwasanaethau sy'n darparu'r gefnogaeth hon orau.

Prif ganfyddiadau

Pam fod gwasanaethau'n cynnig cefnogaeth i rieni?

Dywedodd gwasanaethau wrthym fod darparu cefnogaeth i rieni yn hanfodol er mwyn grymuso, cefnogi ac arfogi rhieni gydag adnoddau a strategaethau i helpu eu plentyn i wella.

Mae cefnogaeth hefyd yn helpu rhieni i ddeall nad ydynt ar fai am yr hyn sydd wedi digwydd i'w plentyn.

Sylwodd gwasanaethau ar sut mae rhai rhieni'n gweithredu fel gwarchodwyr i'w plant wrth gael mynediad at gymorth, felly ystyrir bod cefnogi rhieni yn gam cyntaf hanfodol i amddiffyn a darparu cefnogaeth i'r plentyn.

1. Er mwyn symlrwydd, yn yr adroddiad hwn mae'r term 'rhiant' yn golygu unrhyw oedolyn mewn rôl rhiant neu brif ofalwr i blentyn; er enghraifft, gall fod yn rhiant biolegol, llys-riant, rhiant mabwysiadol, gofalwr maeth neu berthynas arall yn y rôl honno.

Pa wasanaethau sy'n cefnogi rhieni?

Ar ddiwedd 2024, roedd 177 o wasanaethau'n darparu cefnogaeth i rieni nad ydynt yn cam-drin plant yr effeithir arnynt gan gam-drin rhywiol – bron i hanner y 363 o wasanaethau a nodwyd gennym fel rhai sy'n darparu unrhyw fath o gefnogaeth i blant sydd wedi'u cam-drin yn rhywiol.[2]

Roedd rhai gwasanaethau'n darparu cefnogaeth i grwpiau penodol o rieni (e.e. mamau, tadau, neu rieni o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig), neu i rieni yr effeithir arnynt gan fathau penodol o gam-drin plant yn rhywiol - yn fwyaf cyffredin cam-fanteisio'n rhywiol ar blant.

Dim ond chwarter y gwasanaethau sy'n cefnogi rhieni oedd â cham-drin plant yn rhywiol fel eu hunig neu brif ffocws. Roedd traean arall wedi'u lleoli yn y sector trais rhywiol, ac roedd gan bron i hanner gylch gwaith ehangach.

Darparwyd y rhan fwyaf o gefnogaeth i rieni ochr yn ochr â chefnogaeth i'w plant, ac nid oedd yn glir faint o gefnogaeth sydd ar gael i rieni yn eu hawl eu hunain. Dim ond pedwar gwasanaeth oedd yn canolbwyntio eu cefnogaeth yn gyfan gwbl ar rieni.

Gwasanaethau yn y sector nid-er-elw oedd y mwyafrif helaeth o'r holl wasanaethau sy'n cefnogi rhieni. Roedd y rhan fwyaf o wasanaethau'n fach o ran graddfa, gan weithredu naill ai mewn un awdurdod lleol neu ar draws llai na 10 awdurdod lleol o fewn un rhanbarth.

Pa gefnogaeth sydd ar gael i rieni?

Ar ddiwedd 2024 gwelsom fod gwasanaethau'n darparu mathau gwahanol o gefnogaeth i rieni:

- Roedd tri chwarter yn cynnig therapi, cwnsela neu gefnogaeth emosiynol un-i-un.
- Roedd dwy ran o bump yn darparu gwasanaeth eirioli, gwaith achos neu gefnogaeth gan gynghorydd trais rhywiol annibynnol (ISVA) neu eiriolwr trais rhywiol plant a phobl ifanc (ChISVA).
- Roedd mwy na thraean yn darparu ymyriadau grŵp.
- Roedd bron i chwarter yn darparu llinell gymorth/gwasanaeth sgwrsio.

Disgrifiodd gwasanaethau hefyd eu bod yn cynnig cefnogaeth anffurfiol neu fynediad at adnoddau; yn aml câi hyn ei ddisgrifio fel ffocws eilaidd ochr yn ochr â chefnogaeth i'r plentyn.

Roedd rhai gwasanaethau'n ehangu neu'n datblygu ymyriadau newydd i rieni, neu wedi addasu eu darpariaeth i gefnogi ystod ehangach o rieni.

2. Yn ogystal â hyn, roedd wyth gwasanaeth yn cefnogi rhieni plant a oedd wedi amlygu ymddygiad rhywiol niweidiol.

A oes digon o gefnogaeth ar gael i rieni?

Datgelodd ein hymchwil yn 2024 fod cefnogaeth i rieni yn brin ledled Cymru a Lloegr. Fe wnaethom gymharu nifer y gwasanaethau cefnogi ag amcangyfrif o nifer y plant sy'n dioddef cam-drin rhywiol – a chanfod bod o leiaf 6,500 o blant sy'n ddioddefwyr ym mhob gwasanaeth sy'n cefnogi rhieni.

Roedd amrywiad daearyddol sylweddol yn y ddarpariaeth, gyda chefnogaeth i rieni'n arbennig o wael yn Llundain, Gorllewin Canolbarth Lloegr a Gogledd Orllewin Lloegr.

Pa mor gyflym y gall rhieni gael mynediad at gymorth?

Dywedodd bron i hanner yr ymatebwyr i'n harolwg 2024 fod ganddynt restr aros neu nad oeddent yn derbyn atgyfeiriadau newydd i rieni. Dywedodd y rhan fwyaf o wasanaethau oedd â rhestr aros fod rhieni'n gorfod aros hyd at chwe mis i gael mynediad at gefnogaeth ond dywedodd tri fod amseroedd aros o dros flwyddyn.

Roedd llawer yn darparu rhyw fath o gymorth dros dro i rieni ar eu rhestr aros, gan gynnwys cynnig gwybodaeth ac adnoddau hunangymorth a chadw mewn cysylltiad trwy wiriadau lles rheolaidd.

Pa heriau y mae gwasanaethau'n eu hwynebu wrth gynnal eu cefnogaeth i rieni?

Dywedodd llawer o wasanaethau sy'n cefnogi rhieni wrthym eu bod yn ymdrechu i gynnal eu darpariaeth gydag adnoddau cyfyngedig ac yn wyneb y galw cynyddol am gymorth.

Ar ddiwedd 2024, dywedodd dwy ran o dair o ymatebwyr yr arolwg eu bod yn wynebu ansicrwydd ynglŷn â'u cyllid yn y dyfodol, gyda bron i dri chwarter yn dweud bod cyllid/comisiynu yn un o'r heriau mwyaf yr oeddent yn eu profi.

Er bod un o bob saith ymatebydd wedi dweud bod eu hincwm o grantiau a chomisiynu wedi cynyddu dros y ddwy flynedd flaenorol, dywedodd chwarter ei fod wedi gostwng.

Dywedodd pump fod colledion o ran cyllid ac ansicrwydd yn eu gorfodi i ddirwyn i ben eu gwasanaeth cyfan, neu eu hymyriadau penodol i rieni.

Dywedodd eraill wrthym y byddai'n rhaid iddynt roi hysbysiad diswyddo i staff neu ddiswyddo staff os na chadarnhawyd cyllid, a fyddai hefyd yn effeithio ar eu gallu i gadw staff.

Dywedodd dau o bob tri bod lwyth gwaith y staff wedi cynyddu; gan gysylltu hyn â phroblemau oedi yn y system gyfiawnder troseddol neu gyda defnyddwyr gwasanaeth yn cyflwyno anghenion mwy cymhleth.

Wrth wynebu pwysau o ran cyllid a llwythi gwaith cynyddol, dywedodd dwy ran o dair o'r ymatebwyr mai bodloni'r galw am gymorth oedd yr her fwyaf yr oeddent yn ei phrofi.

Nodwyd bod darparu tystiolaeth o effaith cymorth gwasanaethau a gweithio tuag at safonau ansawdd hefyd yn heriau mawr, gan chwarter ac un o bob chwech o'r ymatebwyr yn y drefn honno.

Beth fyddai'n gwella gallu gwasanaethau i gefnogi rhieni?

Disgrifiodd y gwasanaethau y cyd-destun heriol ar gyfer ceisio darparu cefnogaeth i rieni. Tynnwyd sylw at:

- ddiffyg dealltwriaeth gyffredinol o rôl ac anghenion rhieni.
- diffyg gwasanaethau cefnogi y gellid cyfeirio rhieni atynt - nodwyd bod hon yn broblem arbennig i rieni a oedd wedi profi trawma eu hunain; rhieni ag anawsterau dysgu/anableddau, sy'n wynebu heriau iechyd meddwl, neu'n profi tlodi; a rhieni mewn sefyllfaoedd lle'r oedd un o'u plant wedi cael eu cam-drin yn rhywiol gan frawd neu chwaer
- y broses gymhleth o gefnogi rhieni a oedd yn mynd trwy'r Llysoedd Teulu.

Goblygiadau i lunwyr polisi, cyllidwyr a chomisiynwyr gwasanaethau cefnogi

Mae cefnogaeth i rieni nad ydynt yn cam-drin plant yr effeithir arnynt gan gam-drin rhywiol yn hanfodol ond mae'n parhau i fod yn anghyson, yn gyfyngedig, ac yn aml yn cael ei ddarparu yng nghyd-destun gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar blant yn unig. Ychydig o wasanaethau sy'n darparu cefnogaeth bwrpasol i rieni, ac mae argaeledd gwasanaethau'n amrywio'n fawr yn ôl rhanbarth. Mae rhieni yn grŵp amrywiol, ac mae rhai'n wynebu rhwystrau ychwanegol (fel anabledd, tlodi, trawma, neu ymwneud â Llys Teulu) i gael mynediad at gymorth; mae hyn yn tynnu sylw at yr angen am ymyriadau hyblyg, wedi'u teilwra.

Mae prinder cyllid yn rhwystr mawr: gwelsom wasanaethau dan straen cynyddol, gan arwain at ostyngiadau mewn cefnogaeth neu ddod â rhaglenni cefnogi rhieni i ben. Heb fuddsoddiad hirdymor, mae risg y bydd y ddarpariaeth bresennol yn mynd yn anghynaladwy, gan adael llawer o deuluoedd heb gefnogaeth ar adeg dyngedfennol.

Ar gyfer polisi a chomisiynu, mae'r blaenoriaethau'n glir: cydnabod rhieni fel unigolion sydd â'u hanghenion cefnogi emosiynol ac ymarferol eu hunain; mapio a gwerthuso gwasanaethau cefnogi rhieni i nodi beth sy'n gweithio a lle mae bylchau'n bodoli; rhoi'r adnoddau i wasanaethau ddatblygu cefnogaeth wedi'i theilwra sy'n adlewyrchu gwahanol amgylchiadau rhieni; a sicrhau cyllid cynyddol i ateb y galw a chynnal ansawdd ym mhob rhanbarth yng Nghymru a Lloegr.

Mae cydnabod anghenion rhieni a mynd i'r afael â nhw'n hanfodol ar gyfer eu lles eu hunain a lles eu plant. Felly, mae mynd ati'n syth i fuddsoddi a chynllunio mewn dull cydgysylltiedig yn hanfodol i gau'r bwlch cynyddol rhwng yr angen a'r gefnogaeth sydd ar gael fel y gall rhieni dderbyn y gefnogaeth sydd ei hangen arnynt fel unigolion, a bod eu plant yn gallu gwella a ffynnu.

Centre of expertise on child sexual abuse

Gellir lawrlwytho fersiwn Saesneg o'r adroddiad cyflawn yn:
www.csacentre.org.uk/support-matters/

Tynnwyd y llun sydd ar y clawr drwy ddefnyddio actorion ac nid yw'n dangos sefyllfa go iawn.

Barnardo House, Tanners Lane, Barkingside, Ilford, Essex IG6 1QG
E: info@csacentre | @csacentre
www.csacentre.org.uk

25924shc25